# Newidiadau i BBC Radio Foyle a BBC Asian Network

Datganiad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 31 Gorffennaf 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i [ofcom.org.uk](ofcom.org.uk)

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ... 3
2. Cefndir ... 5
3. BBC Radio Foyle - sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion ... 7
4. BBC Asian Network-sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion ... 14

## Atodiad

A1. Hysbysiad Amrywio ... 19
A2. Y Fframwaith Cyfreithiol ... 20

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r datganiad hwn yn nodi penderfyniad Ofcom ar gais y BBC i newid y cwota newyddion a materion cyfoes yn ei Drwydded Weithredu ar gyfer BBC Radio Foyle a BBC Asian Network.

1.2 Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y BBC gais i newid ei gwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hefyd wedi gofyn am leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Asian Network o 1,224 awr i 675 awr y flwyddyn. Yn y ddau achos, mae'r BBC wedi egluro bod y newidiadau'n cael eu sbarduno gan ei nod o wasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn well a'r angen i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau ar-lein a digidol ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol.

1.3 Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y BBC newidiadau i BBC Radio Foyle, gan gynnwys newid ei raglen frecwast dwy awr am fersiwn 30 munud. Fe wnaethom adolygu'r newidiadau hyn ddechrau 2023 fel rhan o'n hadolygiad o'r Drwydded Weithredu, gan nodi bod y rhaglen wedi cael ei hymestyn yn dilyn hynny i awr ym mis Ionawr 2024. Dywedodd y BBC wrthym ei fod yn credu i ddechrau nad oedd angen diwygio'r drwydded, ond ym mis Mehefin 2024 cadarnhaodd fod hyn yn anghywir. O ganlyniad, fe wnaeth y BBC dorri amod ei Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle. Nododd yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 y byddai'n gofyn am ddiwygiad i newid yr amod, a gwnaeth hyn ym mis Ebrill 2025.

1.4 O ran BBC Asian Network, cyhoeddodd y BBC nifer o newidiadau arfaethedig i'w amserlen yn 2024 gyda'r nod o newid ffocws yr orsaf er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau yn well, yn enwedig y rhai rhwng 25 a 34 oed. Petai'n cael ei roi ar waith, dywedodd y BBC y byddai'r newidiadau'n golygu na fyddai'n gallu cyrraedd ei gwota newyddion a materion cyfoes ac felly gofynnodd am newid y Drwydded Weithredu.

1.5 Rhwng 29 Mai a 26 Mehefin 2025, fe wnaethom ymgynghori ar ein safbwynt dros dro, sef ein bod yn bwriadu cymeradwyo'r ddau gais, yn amodol ar ymgynghoriad. Cawsom gyfanswm o bedwar ymateb i'n hymgynghoriad.[1] Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus, rydym wedi penderfynu cymeradwyo ceisiadau'r BBC.

**Ein penderfyniadau – yn gryno**

**Rydym wedi penderfynu cymeradwyo cais y BBC i leihau nifer yr oriau o ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes sy'n ofynnol o dan y Drwydded Weithredu ar BBC Radio Foyle o 1,043 i 710 awr y flwyddyn ariannol ac ar BBC Asian Network o 1,224 i 675 awr y flwyddyn ariannol.**

Rydyn ni'n credu bod y cwotâu newyddion a materion cyfoes diwygiedig ar gyfer BBC Radio Foyle a BBC Asian Network yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, a'i bod yn bosibl i'r ddau gynnig fodloni anghenion cynulleidfaoedd o ystyried newidiadau mewn arferion cyfryngau.

**Wrth wneud y newidiadau hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd, a byddwn yn parhau i'w ddal i gyfrif.** Rydym yn

[1] Mae'r ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi yma.

disgwyl i’r BBC fonitro effaith y newidiadau BBC Radio Foyle a BBC Asian Network ar ymgysylltiad cynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau, lle bo angen, ei fod yn parhau i addasu i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Er mwyn dal y BBC i gyfrif, yn ogystal â sicrhau ei fod yn cydymffurfio â’i gwotâu, byddwn yn parhau i asesu perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys sut mae’r BBC yn darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys monitro bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac adrodd ar hyn fel rhan o’n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Byddwn yn ymyrryd os bydd gennym bryderon am berfformiad y BBC.

Rydym yn siomedig bod y BBC wedi torri amodau ei drwydded ar gyfer BBC Radio Foyle. Wrth symud ymlaen, wrth gynllunio newidiadau a allai effeithio ar ei gydymffurfiad â'r Drwydded Weithredu, rhaid i'r BBC ddilyn y gweithdrefnau cywir, drwy gyflwyno cais i ddiwygio'r Drwydded Weithredu cyn rhoi'r newidiadau ar waith. Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, byddwn nawr yn ystyried y tor-amod yng nghyd-destun cydymffurfio yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn nes ymlaen eleni.

**Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae ein penderfyniadau a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.**

# 2. Cefndir

2.1 Mae'n ofynnol i ni o dan Siarter a Chytundeb y BBC osod Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC, gan gynnwys amodau rheoleiddio sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth[2] ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.[3] Mae gennym y pŵer i ddiwygio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni. Rhwng 29 Mai a 26 Mehefin 2025, fe wnaethom ymgynghori ar gais y BBC i leihau'r cwotâu newyddion a materion cyfoes ar:

a) BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol; a
b) BBC Asian Network o 1,224 awr i 675 awr ym mhob blwyddyn ariannol.

2.2 **BBC Radio Foyle**: Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y BBC gynlluniau arbedion ac ail-fuddsoddi ar gyfer ei wasanaethau yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn cynnwys disodli rhaglen frecwast dwy awr BBC Radio Foyle â fformat newydd 30 munud. Cafodd y newidiadau hyn a newidiadau eraill i radio lleol eu hadolygu ddechrau 2023 ochr yn ochr â'r Drwydded Weithredu, i gydnabod newid yn ymddygiad cynulleidfaoedd a bwriad y BBC i gryfhau ei ddarpariaeth ar-lein. Cyflwynwyd y sioe frecwast ddiwygiedig ym mis Mai 2023 ac fe'i hymestynnwyd yn ddiweddarach i awr ym mis Ionawr 2024. Ar y pryd, dywedodd y BBC wrthym na fyddai angen newid ei Drwydded Weithredu ar gyfer y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, dywedodd y BBC wrthym ym mis Mehefin 2024 ei fod wedi gwneud camgymeriad yn peidio â gofyn am newid ac, o ganlyniad, ei fod wedi torri ei amod newyddion a materion cyfoes 4.66.2 ar gyfer 2023/24. Nododd yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 y byddai'n gofyn am ddiwygiad i newid yr amod, a gwnaeth hyn ym mis Ebrill 2025.

2.3 **BBC Asian Network:** Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd y BBC newidiadau i dîm newyddion BBC Asian Network. Yn dilyn hynny, cyflwynodd gais i newid ei gwota newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network ym mis Ebrill 2025. Yn ei gyflwyniad dywedodd y BBC ei fod yn bwriadu addasu ei allbwn newyddion a materion cyfoes a hynny er mwyn ailffocysu'r orsaf i wasanaethu cynulleidfaoedd iau yn well. Nododd y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar ei allu i fodloni'r cwota presennol ac o ganlyniad mae wedi cyflwyno cais i leihau'r gofyniad hwnnw. Dyma'r newidiadau arfaethedig:

a) Datgomisiynu sioe Ankur Desai (sy'n cael ei darlledu o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 3pm a 6pm ar hyn o bryd) a'i theitlau cysylltiedig, 60 Minutes ac Asian Network News Presents.
b) Yn ei le, comisiynu rhaglen newyddion a materion cyfoes newydd, dwy awr o hyd, ar nos Lun a darlledu bwletinau *Newsbeat* 15 munud ychwanegol cydamserol (gyda BBC Radio 1 a BBC Radio 1 Xtra) diwedd y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau (ar hyn o bryd dim

---

[2] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 yn y Siarter)

[3] Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC: 1) darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; 2) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; 3) dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau; 4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU; a 5) adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd (erthygl 6 yn y Siarter).

ond ar ddydd Gwener mae'r rhaglen *Newsbeat* estynedig diwedd y prynhawn yn cael ei darlledu ar BBC Asian Network).

c) Cyflwyno 10-20 awr ychwanegol o raglenni materion cyfoes annibynnol bob blwyddyn.

2.4 Yn ogystal â gofyn am ostyngiad yn y cwota newyddion a materion cyfoes, mae cyflwyniad y BBC hefyd yn nodi cynigion sy'n ymwneud ag amserlennu a newidiadau golygyddol i'w allbwn newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network. Mae hyn yn cynnwys comisiynu rhaglen newydd yn lle yr *Ankur Desai show*, i'w darlledu yn y prynhawn yn ystod yr wythnos, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth i gefnogi artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd, a chynlluniau i gadw ei rhaglen fusnes, *The Everyday Hustle*. Gwnaethom nodi fod y rhain yn berthnasol i'n hystyriaeth o gais y BBC, ond nid ydynt yn golygu bod angen amrywio'r Drwydded Weithredu o gwbl.[4]

2.5 Rydym yn ystyried amrywiadau i'r Drwydded Weithredu o fewn fframwaith y gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2.

2.6 Fe wnaeth ein hasesiad o p'un ai i amrywio'r Drwydded Weithredu ystyried, ymysg pethau eraill, effaith bosib y newidiadau ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon a chynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig yn cael eu gwasanaethu'n dda o ran allbwn newyddion a materion cyfoes.

2.7 Fe wnaethom hefyd gynnal asesiad o effaith yr amrywiadau arfaethedig ar gydraddoldeb, a nodwyd gennym yn y ddogfen ymgynghori ac fe wnaethom ystyried effaith bosibl newidiadau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[5]

---

[4] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.4.

[5] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu.

# 3. BBC Radio Foyle – sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion

3.1 O'r pedwar ymateb a gawsom i'n ymgynghoriad, roedd tri ymateb yn ymwneud â BBC Radio Foyle.[6] Yn yr adran hon, rydym yn trafod safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein casgliadau dros dro ac yna'n nodi ein hymateb. Rydym yn ystyried sylwadau a gafwyd am yr effaith ar gynulleidfaoedd, effeithiau posibl y newidiadau ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sylwadau ar yr effaith bosibl ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn trafod sylwadau eraill a godwyd ynghylch dal y BBC i gyfrif am dorri amod ei Drwydded Weithredu a'r amserlen rhwng y newidiadau sy'n cael eu gwneud a'n hymgynghoriad ym mis Mai eleni.

## Yr effaith ar gynulleidfaoedd

### Yr hyn a ddywedon ni

3.2 Fel y nodwyd yn Adran 2 y datganiad hwn, roedd ein hymgynghoriad yn cynnig cymeradwyo cais y BBC i leihau cwota ei Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi ein barn dros dro y byddai'r cwota newyddion a materion cyfoes diwygiedig yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Fe ddywedom ei bod yn bosibl i newidiadau'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn rhanbarth Foyle o ystyried, yn benodol, bod cynulleidfaoedd yn cael mwy a mwy o'u cynnwys newyddion a materion cyfoes ar-lein.[7] Fe wnaethom hefyd nodi mai poblogaeth oedolion o 136,000 sy'n cael ei gwasanaethu gan Radio Foyle, felly roedd unrhyw effeithiau'n debygol o fod yn gyfyngedig iawn.[8]

3.3 Fe wnaeth ein hymgynghoriad egluro bod y BBC wedi dweud bod mwy o straeon lleol wedi cael eu darlledu bob awr ar BBC Radio Foyle yn dilyn y newidiadau. Dywedodd fod traffig ar-lein wythnosol cyfartalog Foyle fel cyfran o holl draffig wythnosol cyfartalog Gogledd Iwerddon wedi cynyddu hefyd. Felly, roeddem yn credu bod y newidiadau cyffredinol yn bodloni anghenion cynulleidfaoedd yn well.[9]

### Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

3.4 Roedd y BBC yn cytuno â'n safbwynt dros dro i leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio Foyle, gan ddweud bod y newidiadau wedi cael eu gwneud i ganolbwyntio ei wariant ar wasanaethau digidol ac ar-lein a darparu arlwy newyddion a materion cyfoes sy'n canolbwyntio mwy ar yr ardal leol ar draws pob llwyfan. Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) Ofcom yn cytuno'n rhannol â'r cynnig, gan nodi

[6] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, y BBC a Radiocentre.
[7] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.12.
[8] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.9-10.
[9] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.10-12.

er nad yw'n credu i'r achos dros y newid gael ei gyflwyno'n glir ar y pryd, byddai gwrthdroi'r penderfyniad yn tarfu ormod ar wasanaethau.

3.5 Dywedodd Radiocentre ei fod yn poeni am y newid arfaethedig ar sail yr hyn roedd yn ei ystyried yn egwyddor sylfaenol na ddylai'r BBC fod yn cilio oddi wrth gynnig darpariaeth newyddion lleol.[10] Rydym yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid fesul thema isod.

# Cynnwys newyddion lleol a materion cyfoes

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.6 Dywedodd y Pwyllgor Cynghori fod "pob cyfrwng yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cyhuddo o ganolbwyntio ormod ar Belfast", gan nodi efallai bod BBC Radio Foyle yn "un enghraifft o ddarlledu newyddion yn benodol ar gyfer yr ardal honno". Er bod y gynulleidfa'n fach, tynnodd sylw at y ffaith bod y gymuned honno yn gwerthfawrogi'n fawr yr effaith yn y maes gwasanaeth a'r gynrychiolaeth y mae wedi ei roi. O'r herwydd, awgrymodd y Pwyllgor fod unrhyw ostyngiad yn "ostyngiad net sylweddol" yn y ddarpariaeth ar gyfer ardal Foyle.[11]

3.7 Dywedodd Radiocentre fod y gostyngiad yn y cwota yn "gam arall yn ôl" yn ymrwymiad y BBC i raglenni lleol yn dilyn y newidiadau i Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn 2023.[12]

3.8 Dywedodd y BBC fod y newidiadau a wnaed i BBC Radio Foyle wedi bod o fudd i gynulleidfaoedd yn ardal Foyle. Dywedodd ei fod, drwy gyfuno newyddiadurwyr o dan un Ganolfan y Gogledd Orllewin, wedi cyhoeddi mwy o straeon o BBC Radio Foyle ar-lein a oedd wedi arwain at fwy o draffig wythnosol cyfartalog Foyle a bod cynnydd yn y straeon sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglenni brecwast a gwasanaethau.[13]

## Ein hymateb

3.9 Mae'n rhaid i'r BBC, o dan ei Drwydded Weithredu, sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ychwanegol, mae'r gofynion tryloywder yn y Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer sut mae'n cynnig darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn gan gynnwys ar draws ei wasanaeth ar-lein. Rhaid i'r BBC gofio hyn wrth iddo ddatblygu ei wasanaethau.

3.10 Fe wnaethom nodi yn ein hymgynghoriad fod y BBC wedi dweud, cyn y newid, bod tua 2-15% o'r straeon ar sioe frecwast Foyle yn benodol i'r ardal leol.[14] Ers y newid, dywedodd ei fod, ar gyfartaledd, wedi darlledu 1.1 yn fwy o straeon lleol yr awr a mwy o straeon cyffredinol yr awr ar *North West Today* nag yr oedd yn gwneud ar *Breakfast on Foyle.* Er bod y cynnydd yn gymharol fach, mae'n dal yn nodedig mewn hinsawdd lle mae cyllidebau'n crebachu. Rydym yn ystyried hyn yn dystiolaeth bod gan y newid hwn y potensial i fod o fudd i gynulleidfaoedd a chyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 1.

3.11 Rydym yn anghytuno â rhanddeiliaid y gallai ailfuddsoddi mewn gwasanaethau digidol leihau'r gwerth cyhoeddus a gynhyrchir gan gynnwys newyddion a materion cyfoes BBC Radio Foyle. Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hymgynghoriad, oherwydd cyfyngiadau ariannol mae angen i'r BBC weithio gyda llai o gyllideb, gan barhau i gyflawni ei rwymedigaethau i

[10] Ymateb y BBC, t.1-2; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, t.4; ymateb Radiocentre, t.3.
[11] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, p.3.
[12] Ymateb Radiocentre, t.3.
[13] Ymateb y BBC, t.1.
[14] Ymgynghoriad ar geisiadau'r BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu Ofcom, t.10.

wasanaethu pob cynulleidfa. Yn dilyn y newidiadau yng Ngogledd Iwerddon, fel uno canolfannau newyddiadurol, rydym yn cydnabod bod cynnydd wedi bod yn yr allbynnau newyddion a materion cyfoes sy'n cael eu darparu i gynulleidfaoedd yn rhanbarth Foyle.

# Cyrraedd cynulleidfaoedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.12 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon fod rhanbarth Foyle yn “un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Ngogledd Iwerddon”, ac nad oedd “lleihau'r gwasanaeth hwn yn helpu'r BBC i fynd i'r afael â'i broblem o ddenu cynulleidfaoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is i'w wasanaethau”.[15]

3.13 Dywedodd Radiocentre fod cynulleidfaoedd hŷn yn tueddu i ddibynnu mwy ar wasanaethau darlledu llinol na chynulleidfaoedd iau. Nododd ein bod wedi tynnu sylw yn ein hymgynghoriad at fuddsoddiad cynyddol y BBC mewn newyddion lleol digidol ar gyfer Gogledd Iwerddon, ond dywedodd nad oedd yn glir y gellid newid y fformatau hyn ar sail debyg am debyg nac y dylid gwneud hyn. Dywedodd fod pobl yn ymddiried yn fawr mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar y radio, yn enwedig o ran cyrraedd cynulleidfaoedd yn oddefol, a'i fod yn cael ei werthfawrogi'n arbennig gan gynulleidfaoedd nad ydynt efallai'n mynd ati i chwilio am newyddion mewn mannau eraill.[16]

## Ein hymateb

3.14 Mae ein data'n awgrymu, er bod gwrando ar newyddion ar wasanaethau darlledu yn dal yn boblogaidd, bod gwrando ar wasanaethau ar-lein yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall. Mae ein data diweddaraf yn dangos bod cyfran debyg o bobl nawr yn cael eu newyddion o ffynonellau ar-lein (65%) â theledu sy’n cael ei ddarlledu (64%), wedi’u dilyn gan radio a chyfryngau cymdeithasol (46% ar gyfer y ddau). Ymysg pobl dros 55 oed (un o’r grwpiau oedran mwyaf o ran gwrandawyr BBC Radio Ulster/Foyle), teledu sy’n cael ei ddarlledu yw’r llwyfan sy’n cael ei grybwyll fwyaf o hyd ar gyfer newyddion (91%), yna radio ac ar-lein (52% ar gyfer y ddau).[17] Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hymgynghoriad, mae’n rhaid i’r BBC wasanaethu pob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau sy’n dibynnu mwy ar allbwn ar-lein. Mae gan y cynulleidfaoedd hyn ddiddordeb mewn newyddion lleol hefyd, gyda 40% o wrandawyr 15-24 oed yn dweud eu bod yn gwrando ar newyddion lleol ar y radio.[18]

3.15 Rydym yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch y BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Er bod data gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn awgrymu bod ardal Derry yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon, ychydig iawn o dystiolaeth sydd i ddangos unrhyw wahaniaethau amlwg o ran grwpiau economaidd-gymdeithasol ledled Gogledd Iwerddon. Fel y nodwyd uchod, o ystyried y data cyfyngedig sydd ar gael ar ddemograffeg cynulleidfaoedd yn ardal Foyle, ni allwn asesu a yw gwrando yn rhanbarth Foyle wedi gostwng ymysg cynulleidfaoedd C2DE. Fodd bynnag, fel rhan o'n hadroddiadau blynyddol ar

[15] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, p.5.
[16] Ymateb Radiocentre, t.3.
[17] Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2018 a 2025.
[18] IPA TouchPoints 2025.

y BBC, rydym yn parhau i adolygu perfformiad y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd o wahanol grwpiau demograffig ar draws ei wasanaethau.

## Tryloywder o ran ymgysylltu ac ymgynghori â chynulleidfaoedd

### Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.16 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, er bod y BBC wedi priodoli'r newidiadau i BBC Radio Foyle i wneud arbedion ariannol, gwella gwasanaethau, arloesi ar gyfer cynulleidfaoedd, a mynd i'r afael â chynulleidfaoedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ei fod o'r farn nad oedd y dystiolaeth i gyfiawnhau'r newidiadau wedi bod yn gwbl dryloyw.[19]

3.17 Dywedodd Radiocentre mai "tystiolaeth gyfyngedig" oedd i gefnogi'r cynnig , a chyfeiriodd at ddarnau o destun yn ein ymgynghoriad a oedd yn egluro na fyddai'n bosibl canfod a yw'r gostyngiad mewn allbwn newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle wedi cyfrannu at y newidiadau mewn patrymau gwrando.[20]

### Ein hymateb

3.18 Fel y nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad, cafodd y newidiadau amserlennu a weithredwyd gan y BBC eu cyhoeddi'n dda ym mis Tachwedd 2022, gan gael eu rhoi ar waith ym mis Mai 2023.[21] Nodwn fod estyniad diweddarach y rhaglen a gwell sylw ar-lein wedi cael eu gwneud mewn ymateb i adborth gan gynulleidfaoedd a staff.[22] Fel y nodwyd yn flaenorol, mae BBC Radio Foyle yn gwasanaethu poblogaeth fach iawn o 136,000 o oedolion ac, o ganlyniad, mae'r BBC yn dweud ei bod yn anodd monitro perfformiad BBC Radio Foyle.

3.19 Fel rhan o'i gyflwyniad, cyfeiriodd y BBC at ffynonellau data a oedd yn sail i ddatblygiad ei gynnig a rhannodd y rhain â ni i'w hystyried. Wrth lunio ein safbwynt dros dro, fe wnaethom hefyd gynnal asesiad annibynnol, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o'n hymchwil cynulleidfa ein hunain. Cyn hyn, ni chawsom unrhyw adborth gan randdeiliaid yn nodi effaith negyddol ar ansawdd yr allbwn neu'r gwasanaeth i gynulleidfaoedd o ganlyniad i'r newidiadau i BBC Radio Foyle.

3.20 Mae'n galonogol gweld y BBC yn cadarnhau yn ei gyflwyniad ei fod yn monitro perfformiad y newidiadau i newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle.[23] Byddwn yn parhau i gynnwys hyn yn ein hasesiad o berfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu pob cynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon a byddwn yn camu i mewn os byddwn yn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth sy'n peri pryder.

---

[19] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, p.5.
[20] Ymateb Radiocentre, t.3.
[21] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.7.
[22] BBC, BBC Radio Foyle's North West Today programme to be extended to one hour, 2023.
[23] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.19.

# Torri amodau'r Drwydded Weithredu

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.21 Nododd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon fod yr amserlen estynedig rhwng cynnig y newidiadau cychwynnol yn 2022, eu rhoi ar waith yn 2023, a'u diwygio yn 2024 ac sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn cyflwyno heriau a risgiau gwirioneddol sy'n cyfyngu ar yr ystwythder a'r eglurder sydd eu hangen ar y BBC a'r diwydiant ehangach. Dywedodd y Pwyllgor fod angen ymgynghori ar newidiadau arfaethedig yn gyflymach yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu brys a phwysau'r tirlun cyfryngau yn well.[24]

3.22 Nododd Radiocentre fod cynnig y BBC ar gyfer BBC Radio Foyle yn un ôl-weithredol i bob pwrpas ac mai dim ond ar ôl iddo dorri amod ei Drwydded Weithredu y gofynnodd amdano. Dywedodd fod hyn yn gosod "cynsail pryderus" a bod Ofcom i bob pwrpas yn "ffurfioli tor-amod sydd eisoes wedi digwydd, yn hytrach na dal y BBC yn atebol am gyflawni ei rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus presennol".[25]

## Ein hymateb

3.23 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a Radiocentre ynglŷn â'r ffaith bod y BBC wedi torri'r cwota newyddion a materion cyfoes sydd yn ei drwydded weithredu ar gyfer BBC Radio Foyle.

3.24 Mae'n bwysig bod y BBC yn gallu gwneud newidiadau i'w wasanaethau wrth i arferion cyfryngau cynulleidfaoedd barhau i esblygu, ac o ystyried ei gyfyngiadau ariannol a'r gofyniad i wasanaethu pob cynulleidfa. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, roeddem yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i Radio Foyle ac fe wnaethom gydnabod y rhain yn ein datganiad Moderneiddio'r Drwydded Weithredu ym mis Mawrth 2023. Yna, gwnaeth y BBC y newid hwn ym mis Mai 2023, ond ni ofynnodd am newid y Drwydded Weithredu.[26]

3.25 Fel y gwnaethom nodi yn ei Adroddiad Blynyddol ar y BBC yn 2023/24, rhoddodd y BBC wybod i ni ym mis Mehefin 2024 ei fod wedi methu â chyrraedd y cwota o 1,043 awr ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle, gan ddarparu dim ond 743 awr yn 2023/24. Dywedodd y BBC wrthym fod cam-gyfathrebu mewnol wedi golygu bod rhaglenni newyddion nad oeddynt wedi optio allan - h.y. rhaglenni gan BBC Radio Ulster - wedi cael eu cynnwys mewn camgymeriad wrth gyfrifo ei allbwn, a'i fod yn credu'n anghywir y byddai'n dal yn gallu cyrraedd ei gwota ar gyfer yr amod hwn.[27]

3.26 Ar ôl sylweddoli'r gwall, dywedodd y BBC wrthym eu bod wedi rhoi gwybod i Ofcom y dylai fod wedi gofyn am newid trwydded pan gyhoeddwyd y newidiadau ac y byddai'n cyflwyno newid i ddiwygio amod y Drwydded Weithredu i adlewyrchu allbwn presennol y gwasanaeth. [28] Ar ôl hyn, dywedodd y BBC wrthym hefyd y byddai'n cyflwyno ceisiadau ychwanegol am newid Trwydded Weithredu (BBC Asian Network) ar yr un pryd i sicrhau effeithlonrwydd.

3.27 Fe wnaethom amlinellu yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC fod peidio â chydymffurfio â'r cwotâu hyn yn gallu bod yn fater difrifol. Dywedom ei bod yn bwysig bod y BBC yn cymryd

---

[24] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, p.6.
[25] Ymateb Radiocentre, t.3.
[26] OfcomYmgynghoriad ar geisiadau'r BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, p.7.
[27] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2023/24, Atodiad 1, t.6.
[28] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2023-24, Atodiad 1, t.6-7.

camau rhesymol i sicrhau ei fod yn bodloni ei gwotâu ac yn monitro ei allbwn drwy gydol y flwyddyn, i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi'n brydlon. Fe wnaethom ddweud, pan fydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau sy'n debygol o effeithio ar ei gydymffurfiad â'r Drwydded Weithredu, ei bod yn bwysig ei fod yn dilyn y prosesau a'r ceisiadau cywir i ddiwygio'r Drwydded Weithredu cyn rhoi ei newidiadau ar waith.[29]

3.28 Rydym yn deall pryderon rhanddeiliaid y gallai ein cymeradwyaeth i gais y BBC i leihau newyddion a materion cyfoes osod cynsail ar gyfer rhagor o newidiadau i'r Drwydded Weithredu. Fodd bynnag, rydym yn glir bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn a bod cais i ddiwygio'r Drwydded Weithredu yn cael ei gyflwyno *cyn* rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Dim ond ar ôl cynnal asesiad trylwyr ynghylch a fyddai'r newid y gofynnwyd amdano yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ac yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd, y byddem yn llunio barn dros dro ac yn ymgynghori arni. Rydym yn pwysleisio y byddai gennym bryderon difrifol pe bai achosion tebyg o dorri amodau'r Drwydded Weithredu yn digwydd yn y dyfodol.

# Yr effaith ar gystadleuaeth

## Yr hyn a ddywedon ni

3.29 Fe wnaethom nodi bod y BBC wedi nodi yn ei gais nad oedd yn credu bod y newidiadau wedi cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth ers iddynt gael eu rhoi ar waith. Fe wnaethom ddweud nad oedd rhanddeiliaid wedi mynegi unrhyw bryderon ynglŷn â chystadleuaeth ac fe wnaethom ddod i'r casgliad dros dro bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i gynnig y BBC yn isel.[30]

## Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

3.30 Ni wnaeth yr ymatebwyr i'n hymgynghoriad nodi unrhyw bryderon yn ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol. Ailadroddodd y BBC yr asesiad a wnaed yn ei gyflwyniad gwreiddiol, ei fod wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw effeithiau niweidiol ar y farchnad wedi deillio o'r newidiadau.[31]

## Ein hymateb

3.31 O ystyried yr uchod, rydym yn parhau i ddisgwyl na fydd yna unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i'r newid i'r Drwydded Weithredu. Rydym hefyd yn deall nad yw newid y BBC i Radio Foyle wedi arwain at unrhyw raglenni BBC Foyle ychwanegol, (yn hytrach mae wedi golygu mwy o gyd-ddarlledu o BBC Radio Ulster), sy'n cefnogi ymhellach ein asesiad o ddiffyg effaith ar gystadleuaeth.

# Ein penderfyniad

3.32 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n diwygiad arfaethedig i’r Drwydded Weithredu am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad ac uchod mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid.

---

[29] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2023/24, Atodiad 1, t.7.

[30] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i’w Drwydded Weithredu, t.12.

[31] Ymateb y BBC, p.1.

**Felly byddwn yn derbyn cynnig arfaethedig y BBC i leihau ei gwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol.** Rydym yn ymwybodol bod angen i'r BBC addasu i arferion cynulleidfaoedd o ran y cyfryngau a gallu darparu lle mae cynulleidfaoedd eisiau gwylio a gwrando ar gynnwys. Fe y gwnaethom amlinellu yn ei Datganiad Trwydded Weithredu'r BBC yn 2023, rydym yn disgwyl i'r BBC fod yn fwy arloesol ac arbrofi o ran sut mae'n cyrraedd ac yn apelio at gynulleidfaoedd.[32]

3.33 Rydym yn disgwyl i'r BBC gadw golwg ar sut mae'r newidiadau i BBC Radio Foyle yn gweithio ac egluro gyda'i Adroddiad Blynyddol sut mae'n parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd yn ardal Foyle. Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn bodloni ei gwotâu ac yn monitro ei allbwn drwy gydol y flwyddyn, fel bod unrhyw faterion yn cael eu nodi'n brydlon. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro perfformiad y BBC ac adrodd ar berfformiad a chydymffurfiaeth yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC. Byddwn yn ymyrryd ar unwaith os byddwn yn canfod pryderon.

3.34 Rydym yn siomedig bod y BBC wedi methu dilyn y gweithdrefnau cywir ac, o ganlyniad, wedi torri amod ei Drwydded Weithredu yn 2023/24 ac fel y nodir yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol diweddar y BBC, fe wnaethant eu torri eto yn 2024/25.[33] Rydym yn ailadrodd i'r BBC bwysigrwydd sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn a lle bod hynny'n briodol bod cais i ddiwygio'r Drwydded Weithredu yn cael ei gyflwyno cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.

3.35 Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, byddwn nawr yn ystyried y tor-amod yng nghyd-destun cydymffurfio yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn nes ymlaen eleni.

3.36 Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad amrywio i Drwydded Weithredu'r BBC ochr yn ochr â'r datganiad hwn yn Atodiad A1.

[32] Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC Ofcom, t.34.
[33] BBC Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25, t.214.

# 4. BBC Asian Network–sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion

4.1 O'r pedwar ymateb a gawsom i'n ymgynghoriad, roedd tri ymateb yn ymwneud â BBC Asian Network.[34] Yn yr adran hon, rydym yn trafod safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein casgliadau dros dro ac yna'n nodi ein hymateb. Rydym yn ystyried sylwadau a gafwyd am yr effaith ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys effeithiau posibl y newidiadau ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sylwadau ar yr effaith bosibl ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn trafod sylwadau eraill a godwyd ynglŷn â dal y BBC i gyfrif am ddarparu newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig.

## Yr effaith ar gynulleidfaoedd

### Yr hyn a ddywedon ni

4.2 Roedd ein hymgynghoriad yn nodi ein barn dros dro y byddai'r cwota newyddion a materion cyfoes diwygiedig yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Fe wnaethom ddweud ei bod yn bosibl i gynnig y BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig o ystyried y newid parhaus mewn tueddiadau cael gafael ar ddarlledu tuag at lwyfannau ar-lein, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau a'r rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

4.3 Fe wnaethom nodi bod angen i'r BBC allu addasu ei wasanaethau mewn ymateb i'r newidiadau hyn yn arferion cynulleidfaoedd, er mwyn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd lle maen nhw eisiau gwylio a gwrando.[35]

### Pwysigrwydd cynnwys newyddion a materion cyfoes

### Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

4.4 Dywedodd Radiocentre fod y newidiadau arfaethedig yn destun pryder ac y byddent yn cael effaith negyddol ar y gymuned Asiaidd Prydain. Dywedodd mai rhaglenni newyddion a materion cyfoes arbenigol a manwl oedd yr union fath o gynnwys unigryw y dylai'r BBC ei ddarparu i gynulleidfaoedd. Roedd o'r farn bod toriadau arfaethedig y BBC yn ostyngiad clir mewn allbwn sy'n cyflawni Dibenion Cyhoeddus y BBC i ddarparu gwybodaeth ddiduedd ac adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol.[36] Nododd Panjab Radio fod cynulleidfaoedd Asiaidd yn dibynnu ar ddarlledwyr, gan gynnwys y BBC, i gael newyddion a materion cyfoes. Dywedodd pe bai'r newidiadau'n cael eu caniatáu yna byddai'r gymuned Asiaidd yn cael ei hamddifadu o'r ffynhonnell werthfawr hon.[37] Yn y cyfamser, dywedodd y BBC ei fod o'r farn y byddai'r newidiadau'n cryfhau ei ddarpariaeth newyddion a materion

[34] BBC, Panjab Radio, a Radiocentre.
[35] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.14.
[36] Ymateb Radiocentre, t.2.
[37] Ymateb Panjab Radio, t.2.

cyfoes drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig ledled y DU a'u "cynnwys yn y sgwrs".[38]

4.5 Dywedodd Radiocentre hefyd nad oedd ymrwymiad cyffredinol i newyddion digidol yn gwneud iawn am y gostyngiad mewn newyddion llinol, ac y byddai'n amddifadu cynulleidfa sylweddol o gynnwys llafar dibynadwy sy'n hanfodol ac yn ddiwylliannol berthnasol. Dywedodd fod penderfyniad y BBC i uno ei weithrediadau newyddion a rhoi'r gorau i ddarparu bwletin *Newsbeat* pwrpasol i'w gynulleidfaoedd De Asiaidd, yn ogystal â datgomisiynu sioe Ankur Desai, wedi gwaethygu'r sefyllfa.[39]

## Ein hymateb

4.6 Rydym yn cytuno â Panjab Radio a Radiocentre bod darparu newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network yn dal yn bwysig. Yn yr achos hwn, byddai'n dal yn ofynnol i'r BBC, o dan gwota llai, ddarparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar yr orsaf yn ogystal â darparu bwletinau newyddion rheolaidd drwy gydol y dydd. Ar ben hynny, mae'n dal yn ofynnol i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn i bob cynulleidfa, gan gynnwys pobl Asiaidd Prydeinig.

4.7 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Adran 3 ac yn ein hymgynghoriad, mae angen hyblygrwydd ar y BBC o ran sut a ble mae'n darparu ei gynnwys newyddion a materion cyfoes,[40] yn enwedig o ystyried bod arferion cynulleidfaoedd yn newid oddi wrth ddarlledu tuag at ar-lein.[41]

4.8 Er bod y BBC yn datgan bod ei newidiadau arfaethedig - gan gynnwys dileu bwletinau newyddion canol y prynhawn - yn rhan o ymdrech ehangach i addasu i anghenion newidiol cynulleidfaoedd, mae'n dal i fwriadu darlledu newyddion yn benodol yn ystod slot y prynhawn, gyda dau fwletin 15 munud, am 12.45pm ac yn ystod y slot 'amser gyrru' brig am 5.45pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hymgynghoriad, er na fyddai'r allbwn hwn yn cael ei deilwra'n benodol i gynulleidfa BBC Asian Network, byddai'n dal yn darparu newyddion sy'n canolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfaoedd iau, a fyddai'n cyfrannu at gyflawni Diben Cyhoeddus 1 yr orsaf.

4.9 Mae'r BBC hefyd yn bwriadu comisiynu sioe sgwrsio materion cyfoes wythnosol newydd ar Asian Network, fydd yn cynnwys trafodaethau newyddion amserol a newydd, dadansoddiad manwl a chyfranogiad cynulleidfaoedd,[42] yn ogystal â rhaglenni materion cyfoes annibynnol ychwanegol drwy gydol y flwyddyn. Dylai'r rhaglenni hyn ddarparu cynnwys sy'n ddiwylliannol berthnasol i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig.

4.10 Er bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys newyddion, gan gynnwys mwy a mwy ar ei wasanaethau ar-lein, mae cynulleidfaoedd Asiaidd a chynulleidfaoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn llai tebygol o ddefnyddio'r BBC ar gyfer newyddion.[43] Felly, yng ngoleuni'r newidiadau hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC olrhain yn ofalus pa mor dda mae'n diwallu anghenion y cynulleidfaoedd hyn drwy ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ehangach, a gwneud yn siŵr nad yw'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol arnynt.

---

[38] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.8.
[39] Ymateb Radiocentre, t.2.
[40] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.19.
[41] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.14.
[42] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.5.
[43] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025, mae 56% o gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig a 60% o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael gafael ar unrhyw newyddion gan y BBC – sy'n is o lawer na chyfran yr oedolion Gwyn (68%). Sylwch fod y ffigur cynulleidfaoedd Asiaidd yn cynnwys cyfranogwyr Tsieineaidd ac Asiaidd eraill yn ogystal â'r rhai sy'n nodi eu bod o Dde Asia.

## Targedu cynulleidfaoedd iau ynteu ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn ehangach

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

4.11 Dywedodd Radiocentre nad oedd cyfiawnhad allweddol y BBC - sef bod angen iddo apelio at gynulleidfaoedd iau a oedd yn symud ar-lein - yn eu hargyhoeddi. Dywedodd nad oedd yn glir a fyddai cynnydd ymylol mewn rhaglenni cerddoriaeth yn llwyddo i fynd i'r afael â'r gostyngiad ehangach ymysg pobl ifanc 15-24 oed. Dywedodd hefyd fod Ofcom wedi nodi bod gwrando ymysg pobl 25 oed a 34 oed wedi aros yn gymharol sefydlog ac roedd y gynulleidfa 35 oed a hŷn wedi tyfu. Dywedodd fod y BBC yn bwriadu torri cynnwys llafar gwerthfawr ar gyfer cynulleidfa a oedd yn amlwg yn ymgysylltu, er mwyn mynd ar ôl demograffeg iau heb unrhyw sicrwydd y byddai'n llwyddo i'w denu.[44]

## Ein hymateb

4.12 Nododd y BBC yn ei gyflwyniad sut roedd y gostyngiad yn nifer y bobl iau sy'n gwrando ar y radio yn golygu bod angen newid rhaglenni er mwyn ymgysylltu'n well â'r cynulleidfaoedd hyn ar-lein.[45] Dywedodd y byddai lleihau'r cynnwys newyddion a materion cyfoes yn caniatáu rhagor o fuddsoddiad mewn cynnwys mwy unigryw, gan gynnwys cerddoriaeth newydd a chynnwys llafar sy'n cael effaith fawr, er mwyn denu cynulleidfaoedd iau. Fel rhan o'i gyflwyniad, rhannodd y BBC wahanol ffynonellau ymchwil a data â ni yr oedd wedi dibynnu arnynt fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynnig, ac rydym wedi ystyried y rhain.[46] Wrth lunio ein safbwynt dros dro, fe wnaethom hefyd gynnal ein hasesiad ein hunain, gan gynnwys dadansoddi ein data ymchwil cynulleidfa ein hunain.[47]

4.13 O ran asesu effaith y gostyngiad yn y cwota ar gynulleidfaoedd penodol, fe wnaethom ystyried yr effaith ar grwpiau a allai ffafrio gwasanaethau llinol traddodiadol, yn enwedig y rheini o ddemograffig hŷn.[48]

4.14 Fe wnaethom nodi yn ein hymgynghoriad, o ystyried bod rhai cynulleidfaoedd hŷn yn tueddu i gael eu newyddion gan orsafoedd radio, nhw sydd yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod yr effaith negyddol bosibl hon yn debygol o gael ei lliniaru, gan fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd hŷn yn cael gafael ar newyddion drwy'r teledu ac yn symud fwyfwy ar-lein. Fe wnaethom nodi bod y mudo ar-lein hwn hyd yn oed yn fwy amlwg ymysg cynulleidfaoedd 25-34 oed, gan leihau effaith y newidiadau. Felly, roeddem o'r farn ei bod yn debygol y byddai'n lleihau unrhyw effaith niweidiol ar gynulleidfaoedd hŷn. Nid yw ein barn ar yr asesiad cydraddoldeb hwn wedi newid.[49]

[44] Ymateb Radiocentre, t.2.
[45] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.12.
[46] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.3-15.
[47] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.15-16.
[48] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, Atodiad 3, t.24. EIA.
[49] Ofcom, Ymgynghoriad ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, Atodiad 3, t.24. EIA.

# Yr effaith ar gystadleuaeth

## Yr hyn a ddywedon ni

4.15 Fe wnaethom nodi bod y BBC wedi nodi yn ei gais nad yw'n credu y byddai'r newidiadau arfaethedig i amserlen BBC Asian Network yn cael effaith sylweddol ar orsafoedd radio eraill, o ystyried y gwahaniaethau yn allbwn BBC Asian Network o'i gymharu â darparwyr eraill. Nododd ymhellach ei fod o'r farn bod y newidiadau arfaethedig y tu allan i gwmpas asesiad perthnasedd pellach.[50]

4.16 Fe wnaethom nodi bod lleihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network ei hun yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau yn allbwn BBC Asian Network a darparwyr eraill.[51]

## Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

4.17 Dywedodd Radiocentre y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y gorsafoedd radio masnachol arbenigol a oedd yn gwasanaethu'r gynulleidfa bwysig hon. Dywedodd y gallai'r cynnig effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol a bod cynyddu allbwn cerddoriaeth yn y slot yn ystod y dydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar weithredwyr masnachol a oedd yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd ac a oedd eisoes â chyllideb dynn.[52]

4.18 Ailadroddodd y BBC ei gasgliad na fyddai'r newidiadau'n cael effaith niweidiol ar y farchnad oherwydd nad oedd cystadleuwyr BBC Asian Network yn cynnig y rhaglenni newyddion a materion cyfoes pwrpasol yr oedd y BBC yn eu darparu, roeddent yn cwmpasu ardaloedd daearyddol llai, ac roedd eu gwrandawyr yn hŷn ar gyfartaledd.[53] [54]

## Ein hymateb

4.19 Er ein bod yn cytuno â'r BBC y gallai'r effaith ar y farchnad fod yn fwy cyfyngedig oherwydd gwahaniaethau rhwng Asian Network a'i gystadleuwyr, o ran newyddion pwrpasol, rydym yn nodi bod rhai gorsafoedd masnachol yn darparu rhaglenni newyddion wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd-Prydeinig. Ar ben hynny, mae ein hymgynghoriad diweddar ar newyddion a gwybodaeth leol ar radio analog yn cynnig gofynion newydd ar gyfer casglu newyddion yn lleol ac mae'n nodi cynigion ynghylch amlder darllediadau newyddion lleol. Os caiff ei fabwysiadu, i rai gorsafoedd, gan gynnwys y rheini sy'n gwasanaethu cymunedau Asiaidd, mae hyn yn golygu y byddai hyn yn cynnwys gofyniad am fwy o newyddion lleol nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o hyd o ran newyddion pwrpasol gan fod y BBC yn destun mwy o reoleiddio na gorsafoedd masnachol, ac mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cwota penodol o oriau.

4.20 O ran pryder Radiocentre, rydym yn nodi nad oedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos sut gallai cynnig y BBC effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn deall bod y BBC yn bwriadu llenwi'r amser darlledu rhydd ar BBC Asian Network â chynnwys sydd wedi'i anelu at gynyddu apêl y Rhwydwaith i wrandawyr iau (h.y. pobl 25-34 oed). Rydym o'r farn mai

[50] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.14-15.
[51] Ofcom, Ymgynghoriad Ofcom ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, t.19.
[52] Ymateb Radiocentre, t.2.
[53] Ymateb y BBC, p.1.
[54] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.14.

effaith gyfyngedig mae hyn yn debygol o'i chael ar Lyca a Sunrise[55] gan fod y rhan fwyaf o'u cynulleidfaoedd yn hŷn nag ystod oedran darged y BBC o bobl 25-34 oed (yn wir, mae gan y gorsafoedd hyn broffil gwrandawyr ychydig yn hŷn na BBC Asian Network yn barod).[56]

4.21 O ystyried yr uchod, rydym o'r farn bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i gynnig y BBC yn isel.

## Ein penderfyniad

4.22 Yn seiliedig ar y rhesymau a amlinellir yn yr ymgynghoriad a'n hymatebion i'r adborth uchod gan randdeiliaid, rydym yn dod i'r casgliad y byddai'r cwota newyddion a materion cyfoes diwygiedig yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. **O ganlyniad, rydym yn cymeradwyo cynnig y BBC i leihau'r oriau o newyddion a materion cyfoes sy'n ofynnol ar BBC Asian Network o 1,224 awr i 675 awr y flwyddyn ariannol.**

4.23 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU, yn cynnig cynnwys unigryw, ac yn darparu newyddion a gwybodaeth ddibynadwy. Fel y nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad, wrth i arferion cynulleidfaoedd newid o ran cael gafael ar newyddion, dylai'r BBC asesu ei berfformiad a'i ymgysylltiad â'r gynulleidfa yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gwasanaethu holl gynulleidfaoedd BBC Asian Network gydag allbwn newyddion a materion cyfoes lle maent yn dewis cael gafael arno.

4.24 O ran dal y BBC i gyfrif, byddwn yn parhau i asesu darpariaeth newyddion cyffredinol y BBC ar draws ei wasanaeth, gan gynnwys olrhain bodlonrwydd cynulleidfaoedd ac adrodd ar hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Nododd y BBC hefyd yn ei ymateb ei fod yn bwriadu monitro'r newidiadau hyn.[57] Os bydd y BBC, neu Ofcom wrth fonitro perfformiad, yn canfod bod y cynulleidfaoedd hyn yn llai bodlon ar yr allbwn newyddion a materion cyfoes, rydym yn disgwyl i'r BBC wneud cynlluniau i fynd i'r afael â hyn, ac rydym yn cadw'r gallu i ymyrryd. Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn bodloni ei gwotâu ac yn monitro ei allbwn drwy gydol y flwyddyn, fel bod unrhyw faterion yn cael eu nodi'n brydlon.

4.25 Mae hysbysiad amrywio Trwydded Weithredu'r BBC wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn, ac mae'n cael ei gynnwys yn Atodiad A1.

---

[55] Sunrise Radio National

[56] Rydym yn nodi bod gorsafoedd eraill hefyd yn darparu cynnwys sy'n canolbwyntio ar Asia, er nad ydym yn gallu dadansoddi rhai ohonynt ar RAJAR, ond ni wnaeth y gweithredwyr hyn fynegi pryderon cystadleuaeth penodol am yr effaith ar eu gorsafoedd.

[57] Ymateb y BBC, p.1.

# A1. Hysbysiad Amrywio

RHIF HYSBYSIAD 3 WEDI'I DDYDDIO 31 GORFFENNAF 2025

I'R DRWYDDED WEITHREDU AR GYFER GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y BBC YN Y DU AR 23 MAWRTH 2023

## Datganiadau

(A) Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC ("y Siarter") a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb") a oedd yn mynnu bod Ofcom yn gosod trwydded ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig. Ar 13 Hydref 2017, cyhoeddodd Ofcom y Drwydded gyntaf. Cafodd y drwydded gyntaf hon ei diwygio ychydig o weithiau.

(B) Ar 23 Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofcom yr ail Drwydded ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig (y "Drwydded"). Diwygiwyd y Drwydded ychydig o weithiau.

(C) Yn unol â Chymal 80 a 13(5) o'r Cytundeb, "Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu" a gyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017 (y "Gweithdrefnau") a'i egwyddorion ymgynghori, roedd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau i ymgynghori'n gyhoeddus ar gais y BBC i wneud dau newid i'r Drwydded i leihau'r cwotâu newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle a BBC Asian Network a chynigiodd newidiadau canlyniadol arfaethedig i'r Drwydded ar 29 Mai 2025.

(D) Mae Ofcom wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

(E) Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddodd Ofcom ddatganiad (y "Datganiad") ar 31 Gorffennaf 2025 yn nodi ein penderfyniad i gymeradwyo cais y BBC i leihau nifer yr oriau o ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes sy'n ofynnol o dan y Drwydded ar BBC Radio Foyle o 1,043 i 710 awr y flwyddyn ariannol ac ar BBC Asian Network o 1,224 i 675 awr y flwyddyn ariannol.

(F) Am y rhesymau a nodir yn y Datganiad, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol diwygio'r Drwydded.

GAN HYNNY, bydd y Drwydded yn awr yn cael ei hamrywio fel a ganlyn:

1. Diwygio paragraff 1.16.1 fel a ganlyn:
    a. bod o leiaf 675 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ym mhob Blwyddyn Ariannol.
2. Diwygio paragraff 4.66.2 fel a ganlyn:
    a. ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 710 awr yn cael eu neilltuo i rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle.

Daw'r amrywiad hwn i'r Drwydded i rym ar unwaith ar 31 Gorffennaf 2025.

LLOFNODWYD AR GYFER OFCOM AR 18 Gorffennaf 2025

X

Cristina Nicolotti Squires
Cyfarwyddwr Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau, ...

# A2. Y Fframwaith Cyfreithiol

A2.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[58] sy'n nodi, at ddibenion rheoleiddio'r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o'r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)[59] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[60]

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[61] Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi bod yn rhaid i egwyddorion rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydyn ni'n credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r datganiad yma:

i) Y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

ii) Anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;

iii) Barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac

A2.3 Y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol ardaloedd o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[62]

A2.4 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw i'r canlynol, fel sy'n ymddangos i ni'n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC:[63]

A2.5 Amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth[64] a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

i) Pa mor ddymunol yw diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a

ii) Y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol.

A2.6 O'r pum Diben Cyhoeddus,[65] mae'r canlynol yn berthnasol i'r datganiad hwn:[66]

---

[58] Adran 198 o'r Ddeddf.

[59] Y Siarter.

[60] Y Cytundeb.

[61] Erthygl 45(1) yn y Siarter.

[62] Adran 3(4) o'r Ddeddf.

[63] Erthygl 45(2) yn y Siarter.

[64] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 y Siarter).

[65] Erthygl 6 yn y Siarter.

[66] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw'r ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am bennu Trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

A2.7 Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; a

A2.8 Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A2.9 Rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 20(3)(d) yn y Siarter, ei bod yn rhaid i'r BBC bennu mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[67] wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau cyhoeddus.[68]

A2.10 Ar wahân i hynny, rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 46(4)(d) yn y Siarter, y gall Ofcom bennu mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a bennwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.[69] Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel rydym yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.[70]

A2.11 Yn ogystal â phennu mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni bennu Trwydded Weithredu (y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.[71] Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

i) Cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

ii) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

A2.12 Sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.[72]

A2.13 Mae Atodlen 2 o'r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu pennu drwy'r Drwydded Weithredu.

A2.14 Efallai y byddwn yn amrywio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni.

A2.15 Yn ogystal â phennu Trwydded Weithredu, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[73] Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y

[67] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi mewn Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU a gynhelir ac a gyhoeddir gan y BBC.
[68] Cymal 14(1) y Cytundeb.
[69] Cymal 14(2) y Cytundeb.
[70] Cymal 14(4) y Cytundeb.
[71] O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom bennu Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.
[72] Erthygl 46(3) yn y Siarter.
[73] Erthygl 46(2) yn y Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.

‘Gweithdrefnau’)[74] sy’n egluro sut rydym yn pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a’r gweithdrefnau i’w dilyn.

Mae’r Gweithdrefnau’n nodi’r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio’r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau’r Drwydded Weithredu a pha mor ddymunol yw sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[75]

[74] Gwelert Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd:Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio’r drwydded weithredu, 2017.

[75] Gweler Y Gweithdrefnau, paragraffau 1.11 i 1.20.